## 1. Canlyniadau'r Ymgynghoriad ar newid geiriad cymal 4.8 o'r Cynllun Ariannu Ysgolion

1.1 Derbyniwyd 27 ymateb gan yr ysgolion (20 cynradd a 7 uwchradd). Roedd pob ysgol a ymatebodd o blaid newid geiriad cymal 4.8

1.2 Derbyniwyd y sylwadau canlynol:

### Ysgolion cynradd

- Credir fod yr addasiad i'w groesawu ac yn cyd fynd gyda Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010. Cytunir na ddylai'r awdurdod elwa yn ariannol o ganlyniad i gau yr ysgol ac y dylai unrhyw arian sy'n weddill gan ysgol sy'n cau, ddilyn y disgyblion sy'n rheiny sy'n cael eu heffeithio gyda'r newidiadau. Byddai'n llawer gwell bod yr arian yn trosglwyddo i'r ysgol newydd a fyddai yn ei dro yn caniatáu i'r ysgol newydd gynllunio defnydd priodol o'r arian yn unol â gofynion y Cynllun Datblygu Ysgol.
- Cytuno gyda awgrym. Mae'r peth yn synhwyrol ac yn deg i olynydd yr ysgol sydd yn cau
- Rydym yn cytuno gyda'r datganiadau uchod
- Anfonir i hysbysu na fydd Corff Llywodraethol Ysgol y Ganllwyd yn cyfarfod eto cyn Ionawr 27 ac felly ni fyddir mewn sefyllfa i ymateb i'r ymgynghoriad dan sylw
- Dylai unrhyw gyllid gael ei drosglwyddo i'r ysgol newydd ond ni ddylai ysgol newydd orfod delio gyda diffygion ariannol ysgolion sydd wedi cau. Dylai yr arian hynny os nad yw yn dilyn i ysgol newydd sydd yn cael ei sefydlu yn sgil cau ysgolion aros yn y sector cynradd yn hytrach na mynd yn ganolog i'r awdurdod a bod y sector cynradd yn colli y gyllideb yma
- Cytuno'n llwyr gyda'r newid geiriad a hynny gan fy mod fel pennaeth wedi wynebu sefyllfa o geisio gwario balansau tair ysgol cyn iddynt gau. Roedd hi'n sefyllfa anodd ceisio gwario gweddill y balansau a hynny cyn diwedd gwyliau'r Haf
- Synnwyr cyffredin yw bod yr arian yn dilyn disgyblion a bod yr arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio'n strategol yn yr ysgol newydd.
- Rydym yn cytuno gyda'r datganiadau uchod
- Trosglwyddo y balansau i'r ysgolion sydd ar ôl mewn cyfradd i nifer eu plant NEU lleihau toriadau 2017/18 drwy ddefnyddio yr arian a arbedir
- Cefnogi 4.8
- Rydym yn cytuno gyda'r newid ac yn ei groesawu.

- O safbwynt newid geiriad y Cynllun Ariannu Ysgolion fel bod balansau ysgolion sy'n cau yn trosglwyddo i'r ysgol newydd (yn unol á'r geiriad a nodir yn eich llythyr) rydym yn datgan fel ysgol ein bod O BLAID yr addasiad.
- Yn anffodus ni chafwyd cyfarfod o'r corff llywodraethol y tymor hwn ond anfonwyd y cynllun i'r holl aelodau yn gofyn eu barn. Dau yn unig a wnaeth ymateb a'r ddau hynny o blaid y cynnig

**Ysgolion uwchradd**

- Cytuno â'r hyn a argymhellir
- Cytuno â'r hyn a argymhellir
- Mae'r CLL yn cytuno i newid geiriad y cynllun ariannu ysgolion fel bod balansau ysgolion sy`n cau yn trosglwyddo i`r ysgol newydd. Mae`r CLL o`r farn fod y newid hwn yn creu cyd-destun cadarnach sy`n caniatau a hyrwyddo cynllunio cyllidol cyfrifol a gofalus. Mae`r CLL hefyd o`r farn fod angen ystyried yn ofalus cyn caniatáu i ddiffygion ysgol sy`n cau gael ei hysgwyddo gan sefydliad newydd. Teimlir y gall hyn olygu fod disgyblion yn dyfodol yn cael eu cosbi'n annheg am benderfyniadau`r gorffennol.

- Mae'r CLL yn anghytuno hefo`r egwyddor ac o`r farn y dylai pob ysgol newydd gael dechrau o`r newydd heb orfod ysgwyddo diffygion cyllidol hanesyddol y sefydliadau hynny sydd yn cau.

- Mae'r CLl o blaid y cynllun hwn. Nid oes gwrthwynebiad i'r cynnig gan unrhyw aelod o'r CLl.